**Gwybodaeth i Gleifion**

# Iridotomi Ymylol â Laser YAG (IY YAG)
# Y Clinig Llygaid

**Beth yw IY YAG a pham y mae ei angen arna i?**
Mae gan rai pobl sydd â llygaid bach / rhai newidiadau yn y llygaid geudodau bas a sianeli draenio cul sy'n gallu cau (**cau ongl**) gan eu rhoi mewn perygl o gynnydd ym mhwysedd y llygad (**glawcoma**) a cholli golwg. Mae'r newidiadau'n effeithio ar y ddwy lygad a gall ymddangos fel **Acíwt** (sydyn), **Cronig** (graddol) neu gymysg.

**Defnyddir IY laser i atal glawcoma ongl caeedig neu i'w atal rhag ailymddangos mewn cleifion sydd wedi cael pwl acíwt. Bydd angen trin y ddwy lygad.**

**Sut mae IY YAG yn gweithio?**

- Mae'r sianeli draenio yn bresennol wrth gyffordd/ongl yr iris (y cyhyr lliw yn y llygad) a'r cornbilen (y ffenestr glir).
- Nod y laser yw gwneud 1-2 dwll yn ymyl yr Iris gan ganiatáu i ongl gul agor ychydig gan leihau'r risg o glawcoma.

**Ni fydd y Laser yn gwella eich golwg. Os ydych chi eisoes wedi colli eich golwg yn sgil glawcoma, mae hynny'n barhaol. Nod y driniaeth yw atal y golwg rhag gwaethygu.**

Gan fod rhaid newidiadau yn eich llygaid yn barhaol ac ni ellir eu dadwneud (llygaid bach), ni ellir cael gwared yn gyfan gwbl ar y perygl o glawcoma. Hefyd, gydag amser, gall cataract sy'n datblygu waethygu ceudod isel ac achosi cynnydd mewn pwysau.

**Am y rheswm hwn, mae'n rhaid i chi gael eich monitro gan eich optegydd am oes.**

**Beth alla i ddisgwyl?**

- Mae'r YAG PI yn **driniaeth Claf Allanol** ac mae'n cymryd rhwng 5-10 munud ar gyfer bob llygad.
- **Peidiwch â gyrru i'r clinig. Dewch â rhywun gyda chi.**
- Bydd eich golwg yn cael ei asesu a'i ddogfennu. **Dewch â'ch sbectol gweld yn bell gyda chi.**
- Bydd ychydig o ddiferion yn cael eu rhoi yn y ddwy lygad gan wneud cannwyll eich llygaid yn fach. Gall hyn rhoi **cur pen** i chi – mae hyn yn gyffredin ond bydd yn diflannu mewn ychydig oriau.

- Byddwn yn eich galw i mewn, yn esbonio’r driniaeth i chi ac yn gofyn i chi lofnodi’r ffurflen gydsynio.
- **Os ydych chi’n pryderu, gofynnwch i berthynas/ffrind/Nyrs ddod gyda chi.**

**Gweithdrefn y driniaeth**

- Byddwn yn rhoi rhywfaint o ddiferion anesthetig a rhai ar gyfer glawcoma yn y ddwy lygad.
- Bydd y meddyg yn paratoi’r peiriant laser ac yn eich gosod chi ar y peiriant. Mae’n rhaid i chi aros yn yr un lle drwy gydol y driniaeth laser. **Sicrhewch eich bod yn gyffyrddus cyn i ni ddechrau ar y driniaeth.**
- Bydd y meddyg yn rhoi lens cyffwrdd arbennig yn ofalus ar wyneb eich llygad. Mae hyn er mwyn sefydlogi’r llygad, i'ch atal rhag amrantu ac i chwyddo'r man triniaeth.
- Nid yw’r laser ei hun yn boenus a byddwch yn clywed llawer o synau clicio ac yn gweld goleuadau llachar. Ceisiwch beidio ymateb i’r rhain.
- Fel arfer, rydym yn gwneud 1-2 dwll ar gyhyr yr iris. Fel arfer, gwneir y rhain ar ran uchaf y llygad sydd wedi’i gorchuddio’n rhannol gan gaead uchaf eich llygad.
- Byddwn yn trin y ddwy lygad (un ar y tro) ar yr un diwrnod.

**Ar ôl y Driniaeth**

- Mae’n bosibl y byddwch yn cael eich dallu gan y golau a bydd eich golwg ychydig yn niwlog am ychydig.
- Byddwn yn rhoi rhagor o ddiferion i chi er mwyn atal y pwysau rhag cynyddu.
- Mae’n bosibl y byddwn yn gofyn i chi aros i gael gwirio eich pwysau ymhen 30-60 munud.
- Gallwch gymryd 1-2 Paracetamol at eich cur pen.
- **Byddwn yn rhoi presgripsiwn i chi ar gyfer diferion i gwrth-enynnol i'w cymryd am 1-2 wythnos er mwyn setlo’r llygaid ar ôl y driniaeth.**
- Fe gewch gyngor am unrhyw ddiferion llygaid rydych wedi bod yn eu defnyddio yn y gorffennol.
- **Dylech gael apwyntiad dilynol am ychydig o wythnosau wedi’r driniaeth. Mae’n bwysig eich bod yn mynd i’r apwyntiad hwn.**

**Beth yw risgiau YAG PI?**

- Enyniad / cynnydd mewn pwysau - dros dro. Bydd yn setlo o gymryd diferion.
- Gwaedu – weithiau bydd y laser yn taro’r llestr gwaed yng nghyhyr yr iris gan achosi ychydig o waedu. Bydd hyn fel arfer yn setlo o gymryd diferion. Weithiau er yn anaml, bydd rhai pobl yn gwaedu tipyn gan achosi triniaeth bellach.
- Weithiau, er yn anaml, mae pobl yn dweud eu bod yn gweld cysgodion, disgleirdeb neu weld dwbl. Mae hyn yn fwy cyffredin os yw'r twll (PI) yn is a ddim yn cael ei orchuddio'n gyfan gwbl gan gaead uchaf y llygad.
- **Triniaeth annigonol** - gall y twll a wnaed fod yn fach/yn anghyflawn, yn enwedig os yw’ch llygaid yn dywyll gyda chyhyr iris trwchus neu os oedd

digwydd gwaedu.  Os yw'r twll yn anghyflawn, mae'n bosibl y bydd angen ailadrodd y laser ychydig o ddiwrnodau'n ddiweddarach.

- **Y driniaeth yn methu** - os yw'r onglau'n parhau i fod yn gul gyda phwysau uchel er gwaethaf triniaeth laser digonol, yna, bydd angen triniaeth bellach, gan ddibynnu ar y ffactorau sy'n cyfrannu at y broblem.  Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd angen llawdriniaeth Iridectomi neu lawdriniaeth Cataract os yw cataract trwchus yn achosi problem.

**Gofal hirdymor**

- Os yw'r driniaeth laser yn llwyddiannus ac mae'r risg o bwysau yn isel, cewch eich rhyddhau i ofal eich optegydd i'ch monitro'n flynyddol.

- Os oes gennych chi glawcoma cronig ac yn ei drin gyda diferion, neu mewn risg uchel o glawcoma, yna, bydd yn rhaid i chi barhau i gymryd y diferion ac fe ymdrinnir a'r mater yn yr ysbyty

- Os oes gennych chi lygad goch boenus mwyaf sydyn, colli golwg neu mae'n niwlog, teimlo'n sâl, chwydu, cur pen – cysylltwch a'ch clinig llygad brys ar unwaith.

- Ffoniwch – 01633 65 6268 neu 01633 23 8856 (y Clinig Lygaid Brys) os ydych am gael help neu gyngor.

**"Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/**
**This document is available in English".**